

# **Amddiffyn môr-wenoliaid**

## **Fy llyfr gwaith môr-wenoliaid bach, blwyddyn 3 a 4**

### **Gwers 3 – Cadwraeth y fôr-wennol fechan**

Ers yr 1980au, mae gostyngiad o 50% wedi bod ym mhoblogaeth y Môr-wenoliaid Bach ym Mhrydain o ganlyniad i ddatblygu'r cynefin nythu arfordirol, aflonyddwch dynol a lefelau uchel o ysglyfaethu. O ganlyniad, mae nifer o nythfeydd yn cael eu rheoli'n helaeth er mwyn amddiffyn niferoedd Môr-wenoliaid Bach ar draws Prydain.

Gronant yw'r unig nythfa o fôr-wenoliaid bach yng Nghymru. Oherwydd gwaith caled wardeiniaid a gwirfoddolwyr lleol, mae wedi datblygu i fod yn un o'r nythfeydd mwyaf llwyddiannus ym Mhrydain. Mae Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych, gyda help gwirfoddolwyr ymroddedig ac arbenigwyr adar, yn codi ffensys amddiffynnol o amgylch y nythfa, gwarchod y safle bob dydd, dychryn ysglyfaethwyr i ffwrdd a chadw lefelau aflonyddwch i lawr, siarad gydag ymwelwyr a defnyddwyr y traeth, a modrwyo a monitro'r adar er mwyn eu holrhain.

### **Fideo - Cyflwyniad i gadwraeth y fôr-wennol fechan**

Gwylwch y fideo hon am gadwraeth y fôr-wennol fechan yng Ngronant:  
<https://www.youtube.com/watch?v=HQsbVvOBNBY>

### **Animeiddiad - Cyflwyniad i'r fôr-wennol fechan**

Animeiddiad i ddarganfod mwy am y môr-wenoliaid bach yng Ngronant:  
<http://littleterns.denbighshirecountryside.org.uk/>

### **Animeiddiad cadwraeth**

Animeiddiad i ddarganfod mwy am y môr-wenoliaid bach yng Ngronant:  
<http://littleterns.denbighshirecountryside.org.uk/>

## Geirfa ddefnyddiol

1	Cadwraeth	Y weithred o amddiffyn a gwarchod anifeiliaid, planhigion a'u cynefinoedd rhag amhariad ac i sicrhau nad ydynt yn dod yn rhywogaethau diflanedig.
2	Cadwraethwr	Rhywun sy'n gweithio i warchod bywyd gwylt a'r amgylchedd.
3	Cynefin	Cartref naturiol anifail neu blanhigyn.
4	Nythfa	Nifer o adar o'r un rhywogaeth sy'n nythu neu'n clwydo ar yr un safle.
5	Diflanedig	Pan nad yw rhywogaeth o blanhigyn neu anifail bellach yn bodoli ar y Ddaear.
6	Mewn perygl	Pan fo rhywogaeth yn debygol o ddod yn ddiflanedig.

## Rydym yn annog ymwelwyr i wirfoddoli a dod yn gadwraethwyr

### Amddiffyn môr-wenoliaid

Tra bod eich athro yn dangos cyflwyniad pwynt pŵer i chi am gadwraeth o fôr-wenoliaid bach, meddyliwch am y pwyntiau canlynol:

- Pam mae cadwraeth mor bwysig?
- Beth mae cadwraethwyr yn ei wneud i amddiffyn y fôr-wennol fechan?
- Beth allwn ni ei wneud i helpu i amddiffyn y fôr-wennol fechan?

Ysgrifennwch nodiadau o unrhyw beth a allai fod yn bwysig yn eich barn chi.

### Sleidiau PowerPoint

Dyma'r sleidiau o'r cyflwyniad Powerpoint y gallwch eu defnyddio i ganfod gwybodaeth ar gyfer eich gweithgareddau.

## **Cadwraeth**

Yw'r weithred o amddiffyn a gwarchod anifeiliaid, planhigion a'u cynefinoedd rhag amhariad a sicrhau nad ydynt yn dod yn rywogaethau diflanedig.

Mae'r warden a'r cadwraethwyr gwirfoddol yn nhwyni Gronant yn amddiffyn y fôr-wennol fechan rhag...

## **Newid Hinsawdd**

- Cynnydd yn lefel y môr
- Cynnydd yn nifer y stormydd
- Gall llifogydd arfordirol a gwyntoedd cryfion chwythu tywod a chladdu wyau a chywion ifanc.

## **Aflonyddwch**

- Os ydynt yn cael eu haflonyddu, mae'r môr-wenoliaid bach sydd wedi dowdy wyau yn gadael eu cywion ac nid ydynt yn dychwelyd. Enghraifft o hyn yw pan fo pobl yn mynd â'u cŵn am dro wrth ymyl y nythod.

## **Ysglyfaethwyr**

Ysglyfaethwyr fel:

- Llwynogod
- Cudyllod Coch
- Gwylanod Penwaig
- Carlymiaid
- Brain
- Gwenciöod
- Hebogiaid tramor
- Moch daear

## **Pam mae'n bwysig amddiffyn y fôr-wennol fechan?**

Y fôr-wennol fechan yw un o'r adar môr prinaf yn y DU. Mae aflonyddwch dynol, ysglyfaethwyr a newid hinsawdd yn bygwth niferoedd y fôr-wennol fechan.

Os nad ydym yn amddiffyn y fôr-wennol fechan fe allai droi'n rhywogaeth sydd mewn perygl.

Mae gan bobl gyfle yng Ngronant i amddiffyn y fôr-wennol fechan a chynyddu niferoedd y nythfa fel nad yw'n troi'n rhywogaeth **diflanedig**.

## **Cadwraeth**

Dyma rai o'r ffyrdd y mae cadwraethwyr yn amddiffyn y fôr-wennol fechan:

## **Symud nythod**

Mae'r fôr-wennol fechan yn adeiladu ei nyth ar draethau graeanog. Yn ystod tywydd drwg a llanw uchel, mae nythod, wyau, cywion ac oedolion mewn perygl o gael eu gorlifo.

Mae cadwraethwyr yn codi'r nythod i fyny ac yn eu gosod ar botiau planhigion er mwyn sicrhau nad yw'r nythod yn cael eu golchi i ffwrdd. Dim ond pan nad oes dewis arall ar gael y byddant yn gwneud hyn. Mae hyn yn rhoi gwell siawns i'r adar oroesi.

## **Peidiwch â cheisio symud y nythod eich hun.**

## **Amddiffyn rhag ysglyfaethwyr**

Mae wyau, cywion a chywion sydd wedi magu plu mewn perygl o ysglyfaethwyr. Gall yr oedolion warchod eu hunain rhag ysglyfaethwyr.

Mae ysglyfaethwyr ar y tir ac yn yr awyr yn fygythiad parhaus i fôr-wenoliaid bach. Gall llwynog fynd â nyth llawn wyau ar unwaith, a bwyta'r cywion!

Mae cadwraethwyr yn gwarchod y safle yn ystod y dydd er mwyn cadw ysglyfaethwyr draw.

Maent yn adeiladu corlannau a gosod ffensys trydan i gadw ysglyfaethwyr y nos fel llwynogod a moch daear draw o'r nythod.

## **Ysglyfaethwyr o'r awyr**

Mae wardeiniaid a gwirfoddolwyr yn defnyddio tactegau dychryn trwy ddefnyddio pistol tanio.

Mae gorsaf fwydo wedi cael ei chreu ac mae cywion dofednod yn cael eu gosod fel abwyd fel bo'r ysglyfaethwyr yn mynd â'r rheiny yn lle'r môr-wenoliaid bach. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus gan fod yr ysglyfaethwyr, cudyllod coch yn bennaf, yn mynd â llai o fôr-wenoliaid bach.

## **Golau laser**

Mae cadwraethwyr yn defnyddio teclyn laser clyfar sy'n dychryn ysglyfaethwyr fel brain a chudyllod coch.

Nid yw'r adar yn hoffi golau'r laser a thrwy ei ddefnyddio drosodd a throsodd nid ydynt yn dychwelyd i'r safle.

## **Rheoli ymwelwyr**

Mae cadwraethwyr yn rhoi rhaff las o amgylch ardal fridio'r môr-wenoliaid bach er mwyn dangos i bobl na ddylen nhw na'u cŵn ddod yn agos at yr ardal na tharfu ar yr adar.

Mae'r wardeiniaid hefyd yn aros yn y nythfa drwy'r dydd yn cadw llygad a siarad gydag unrhyw un sy'n dod yn rhy agos i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn cadw pellter diogel.

Maen nhw'n gosod arwyddion i roi gwybodaeth i ymwelwyr am y môr-wenoliaid bach a'r ardaloedd gwyllo.

Mae'r ardal wyllo yn galluogi pobl i weld, gwerthfawrogi a dysgu am y môr-wenoliaid bach heb darfu arnyn nhw. Gallant hefyd ddysgu am blanhigion ac anifeiliaid prin a chyffredin eraill.

Mae pobl yn cael eu hannog i wirfoddoli i helpu i amddiffyn y môr-wenoliaid bach, a bod yn gadwraethwyr eu hunain.

## **Modrwyo**

Rhan bwysig o'r gwaith cadwraeth yw gwneud pobl eraill yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud i warchod y fôr-wennol fechan.

## **Dyma lle gallwch chi helpu!**

1. Ysgrifennwch lythyr at eich papur newydd lleol yn dweud wrthyn nhw pam mae'n bwysig gwarchod môr-wenoliaid bach.
2. Beth sydd eisoes yn cael ei wneud gan gadwraethwyr yn nhwyni Gronant i amddiffyn y fôr-wennol fechan? Disgrifiwch o leiaf 3 o bethau.
3. Esboniwch yn eich llythyr beth all pobl ei wneud i ddysgu am y fôr-wennol fechan ac i helpu i'w gwarchod. (Gweler y sleidiau am help)

## **Gweithgaredd 1 - Ysgrifennwch lythyr i olygydd papur newydd**

Eich tasg yw defnyddio'r holl wybodaeth yr ydych wedi'i dysgu o'r cyflwyniad Powerpoint ac ysgrifennu llythyr at olygydd papur Newydd. I ddechrau, ewch i mewn i grwpiau o bedwar a siaradwch am:

- Pam mae cadwraeth mor bwysig?
- Beth mae cadwraethwyr yn ei wneud i amddiffyn y fôr-wennol fechan?
- Beth allwn ni ei wneud i helpu i amddiffyn y môr-wenoliaid bach?

Ysgrifennwch nodiadau am farn eich grŵp.

Defnyddiwch eich trafodaeth a'ch nodiadau i ysgrifennu llythyr i olygydd eich papur newydd lleol yn dweud wrthyn nhw am:

1. Pam mae'n bwysig amddiffyn y fôr-wennol fechan?
2. Beth sydd eisoes yn cael ei wneud gan gadwraethwyr yn nhwyni Gronant i amddiffyn y fôr-wennol fechan? Disgrifiwch o leiaf 3 peth sy'n cael eu gwneud.
3. Esboniwch yn eich llythyr beth all pobl ei wneud i ddysgu am y fôr-wennol fechan ac i helpu i'w gwarchod. (Gweler sleid 7 os oes angen help arnoch)

Os oes amser, efallai y bydd eich athro/athrawes yn gofyn i chi rannu'ch gwaith gyda gweddill y dosbarth.

## **Rydym yn modrwyo'r adar er mwyn gweld pa rai sy'n dychwelyd!**

### **Gweithgaredd 2 – Dylunio poster**

Gweithiwch naill ai ar eich pen eich hun neu mewn parau i ddylunio poster ar gyfer eich ystafell ddosbarth neu'ch ysgol. Dylai'r poster godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cadwraeth y fôr-wennol fechan yn nhwyni Gronant.

Pwyntiau i'w hystyried:

1. Beth yw pennawd eich neges?  
Dyma brif neges eich poster a dylai ddarparu neges glir a chryno sy'n dweud wrth bobl beth ydych am iddyn nhw ei wybod am gadwraeth y fôr-wennol fechan.
2. Pa brif negeseuon pwysig eraill ydych chi eisiau eu dweud wrth bobl?  
Cadwch at ddau neu dri o bwyntiau clir a chryno. Cadwch y poster yn syml!
3. Beth yw'r prif lun?  
Bydd angen iddo fod yn bwerus a dal y llygad fel bod pobl yn edrych ar eich poster.

Dyma rai posteri enghreifftiol. Gallech ymchwilio i bosteri cadwraeth ar-lein i gael syniadau eraill. Ar ôl i chi orffen, dangoswch eich poster i'r dosbarth a dangoswch eich erthygl a siarad am y ddau.

Un o'r arwyddion a osodwyd i godi ymwybyddiaeth.

### **Gweithgaredd ychwanegol - gweithgaredd gwneud ffilm**

1. Ewch i grwpiau o bedwar a dewiswch rolau i chi eich hunain.  
Efallai yr hoffech fod yn gyfarwyddwr, person camera, actor / cyflwynwydd neu dechnegydd / golygydd.
2. Gallwch ddefnyddio camerâu fflip digidol ac iMovie, Windows Movie Maker neu unrhyw offer ffilmio digidol a phecynnau golygu eraill a ddefnyddir gan yr ysgol.
3. Bydd eich ffilm yn eich dangos chi yn darllen eich erthyglau ac yn dangos ac esbonio'ch poster.
4. Dylai'r grŵp drafod ac ysgrifennu pwy fydd yn gwneud beth ac ym mha drefn.
5. Os ydych yn defnyddio sgrin werdd cofiwch beidio â gwisgo dillad gwyrdd ar ddiwrnod y gweithgaredd, fel arall bydd rhannau ohonoch yn diflannu!
6. Gallwch wneud eich sgrin werdd allan o ddefnydd gwyrdd.
7. Penderfynwch pa lun i'w ddefnyddio fel cefnlen. Gallech ddewis stiwdio ystafell newyddion, y traeth yng Ngronant neu lun o'ch poster.
8. Gallwch ddefnyddio propiau a gwisgoedd i wisgo fel darllenwyr newyddion, darlledwyr neu gyflwynwyr teledu.
9. Gnewch yn siŵr eich bod yn ymarfer eich ffilm cyn recordio.
10. Ar ôl i chi orffen ffilmio gallwch ddechrau'r broses olygu.
11. I olygu'r ffilmiau dylech blygio'r camera i'r cyfrifiadur ac uwchlwytho/mewnforio'r ffilmiau.
12. Uwchlwythwch eich cefndir dewisedig ar yr amserlen olygu.
13. Gallwch ddangos y ffilmiau yn eich dosbarth neu yng ngwasanaeth yr ysgol.

**Mae ffensys trydan yn helpu i gadw môr-wenoliaid bach yn ddiogel**

## Da iawn!

Ewch i'n gwefan [littletorns.denbighshirecountryside.org.uk](http://littletorns.denbighshirecountryside.org.uk) i ddarganfod mwy am y môr-wenoliaid bach yng Ngronant.

Crëwyd y cynlluniau gwersi hyn ar gyfer Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych gan Splinter.co.uk, ar gyfer y prosiect Cysylltiadau Da, ac fe'u hariannwyd gan Lywodraeth Cymru.